# Canolfan Addysg y Bont

## Cynllun Gwella Ysgol (Cryno)
## Cyfnod 2025-2028

Mae copi cryno o'r Cynllun Gwella Ysgol i rhieni/gofalwyr a rhanddeiliaid eraill i'w weld ar ein Gwefan www.canolfanaddysgybont.cymru o dan y pennawd 'Gwella Ysgol'

## Blwyddyn 2025-2026

# CYNNWYS

(Noder: oherwydd rhesymau ymarferol mae rhif y dudalen yn cyfeirio i gychwyn pennod)


| Tudalen | Rhif Pennod | Teitl |
|---|---|---|
| 1 | 1 | Staffio/Llywodraethwyr |
| 2 | 2 | Presenoldeb/Cyrchfannau |
| 3 | 3 | Datganiad datblygu 3 Blynedd/ Prif Flaenoriaethau |


Mae’r Cynllun Gwella a Datblygu yn ddogfen ‘fyw’ a gwelir ychwanegiadau/newidiadau yn unol a sefyllfa gyfredol yr ysgol a/neu blaenoriaethau/polisiau cenedlaethol a/neu rhanbarthol. Mae copi cryno o’r Cynllun Gwella Ysgol i rhieni a rhanddeiliad eraill ar ein gwefan, (gweler Gwella Ysgol)

A Huws (Pennaeth) Medi 2025

# Staffio/
# Llywodraethwyr

**Staffio/Staffing**
**2025/2026**

| | |
|---|---|
| Pennaeth/*Headteacher* : | Mr Andreas Huws |
| Pennaeth Cynorthwyol (Uwchradd)<br>*Assistant Head (Secondary)* | Ms Dawn Hoban (UDRh/SMT) |
| Pennaeth Cynorthwyol (Cynradd)<br>*Assistant Head (Primary)* | Mrs Mannon Grieves-Owen (UDRh/SMT) |
| Uwch Arweinydd: Uwchradd<br>*Senior Lead: Secondary* | Mrs Sioned W Jones (UDRh/SMT) |
| Uwch Arweinydd: Cynradd<br>*Senior Lead: Primary* | Mrs Lisa Roberts (UDRh/SMT) |
| Arwain Data (Asesu) a TG<br>*Data (Assessment) & IT Lead* | Aled Williams |
| Rheolwr Busnes/*Business Manager*<br>Swyddog Gweinyddol a Chefnogaeth /<br>*School Administartion and Support* | Mrs Liza Aston (UDRh/SMT)<br>Mrs Iona Ponsonby/Miss Llinos Williams (0.6)/Mrs Donnette Burke (0.4) |
| Technegydd/*Technician*: | Neil Roberts (0.1) |
| Athrawon Pynciau Arbenigol<br>*Specialist Teachers* | Gethin Thomas B.Add (0.4)<br>Elen Hughes (0.6) |
| Swyddog Hwb Lles<br>*Hub Wellbeing Officer* | Jason Craig |

| **Arwain Llwybrau Cwricwlwm/Curriculuar Pathway Leads** | |
|---|---|
| **Cyn anffurfiol/Anffurfiol**<br>***Pre-informal/Informal*** | **Lled ffurfiol**<br>***Semi Formal*** |
| Dawn Hoban | Mannon Grieves-Owen |
| Lisa Roberts | Sioned W Jones |
| Catrin Jones | |

**Athrawon Dosbarth Cynradd/*Primary Teachers***

| **Dosbarth/*Class*** | **Enw/*Name*** |
|---|---|
| Cynradd 1: (3-7) | Zara Roberts |
| Cynradd 2: (3-7) | Lisa Roberts |
| Cynradd 3: (4-8) | Ann Pierce Jones |
| Cynradd 4: (7-11) | Lowri Carlisle |
| Cynradd 5: (7-11) | Mannon Grieves-Owen |
| Cynradd 6: (7-11) | Aled Jones |
| Cynradd 7: (7-11) | Naomi Edwards |
| Dwynwen (3-19) | Catrin Jones |

**Athrawon Dosbarth Uwchradd/*Secondary Teachers***

| **Dosbarth/*Class*** | **Enw/*Name*** |
|---|---|
| Canol 1: (11-14) | Lowri Fretwell |
| Canol 2: (11-14) | Sioned Jones |
| Ceint 1: (14-19) | Einir Roberts |
| Ceint 2: (11-16) | Kristin Friedman |
| Ceint 3: (14-19) | Huw Edwards |
| Ceint 4: (14-19) | Meinir Thomas |
| Ceint 5: (14-19) | Aled Williams |
| Ceint 6: (14-19) | Dawn Hoban; Tabitha Mead |

**Staff Cefnogol**

| **Cynradd/*Primary*** | **Uwchradd/*Secondary*** | **Gofal Arbennig/*Special Care*** |
|---|---|---|
| Sam Clutton (CALU) | Catrin Williams (CALU) | Jacqueline Ward-Davies (CALU) |
| Dawn Williams (CALU) | Nerys Jones (CALU) | Mary Roberts |
| Elen Mai Jones (CALU) | Kelly Davies (CALU) | Ally Berkeley |
| Laura Roberts (CALU) | Llinos Roberts (CALU) | Leanne Hughes |
| Gemma Hughes (CALU) | Chloe Parry (CALU) | Dwynwen Burford |
| Gwenan Williams (CALU) | Lois Hughes (CALU) | Jodie Griffiths |
| Ffion Rowlands | Ceri Roberts | Staff Gofal Iechyd |
| Ffion Davies | Islwyn Owen | |
| Anna Hughes | Dion Williams | |
| Cathrin Williams | Alison Burford | |
| Angharad Thomas | Ceri Roberts | |
| Kelly Gerrard | Jessica Tilbury | |
| Elen Mair Williams | Lorraine Roberts | |
| Carla Eccles | Jaqueline Davies | |
| Stella Jones | Tomos Jones | |
| Ffion Jones | Deian Elfyn | |
| Emily Everett | Coni Sparrow | |
| Alys Jones | Kat Tyszko | |
| Laura Owen | Carina Williams | |
| Tamara Thomas | Jasmine Kennedy | |
| Stacey Clutton | Daniel Thomas | |
| Ciara Rowley | Jack Chapman | |
| Penny Jones | | |
| Llinos Wynne Williams | | |
| Jasmine Roberts | | |
| Hayley Gardiner | | |

**Eraill/*Other***

| **Manylion/*Details*** | **Enw/*Name*** |
|---|---|
| Nyrs/*Nurse* | Tania Jones |
| Staff Gofal Iechyd/*Healthcare Staff* | Hayley Morey<br>Gwyneth Hulme |
| Gofalwr/*Caretaker* | Clive Jones |
| Gwasanaethau Masnachol/*Commercial Services* | Nia Hughes<br>Wendy Griffiths<br>Flora Evans<br>Fatima Cesida<br>Natalia Lagondina |
| Prif Gogydd/*Cook in Charge* | Belinda Jones |
| Staff Cegin/*Kitchen Staff* | Helen Owen |

| | |
|---|---|
| **Tîm Rheoli a Cwricwlwm/:**<br>***Management and curriculum:*** | Andreas Huws, Dawn Hoban, Zara Roberts, Naomi Edwards, Huw Edwards, Lowri Carlisle, Lowri Fretwell, Manon Grieves-Owen, Ann Pierce Jones, Sioned Jones, Tabitha Mead, Lisa Roberts, Gethin Thomas, Aled Jones, Aled Williams, Kristin Friedman, Einir Roberts, Catrin Jones, Samantha Clutton, Kelly Davies, Elen Jones, Nerys Jones, Laura Roberts, Llinos Roberts, Dawn Williams, Gemma Hughes, Chloe Parry, Catrin Williams, Liza Aston, Meinir Thomas |
| **Uwch Dîm Rheoli/:**<br>***Senior Management Team:*** | Andreas Huws, Dawn Hoban, Mannon Grieves-Owen, Liza Aston Lisa Roberts, Sioned Jones, Aled Williams |
| **Cyfrifoldeb dros LAC/**:<br>***Responsibility for LAC:*** | Andreas Huws, Dawn Hoban |
| **Cyfrifoldeb dros Amddiffyn Plant/**<br>***Responibility Over Child Protecion***: | Andreas Huws, Dawn Hoban, Mr Peter Davies OBE (Llywodraethwyr/*Governors*) |

## **ADRAN ADDYSG/*EDUCATION***

| | |
|---|---|
| **Seicolegydd Addysgol/**<br>***Education Psychologist*:** | Mrs Ffion Ellis Jones<br>Mrs Elenid Glyn |
| **Swyddog Lles/**<br>***Welfare Officer*:** | Ms Angela Bennett |
| **Swyddog Addysg/**<br>***Education Officer:*** | Mr Rhys Williams |
| **Anghenion Addysg Arbennig/ Swyddog Addysg:** | Dr Einir Thomas |

**ADRAN IECHYD/*HEALTH DEPARTMENT***
**Ffisiotherapi/*Physiotherapy***

Darperir gwasanaeth Ffisiotherapi/Iechyd Galwadigaethol yn yr ysgol gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y disgyblion hynny sydd angen cymorth.
*The Physiotherapy and Occupational Health Service is provided in the school by the Betsi Cadwaladr University Local Health Board (BCU) for pupils requiring the assistance..*

**Swyddogion Ffisiotherapi/*Physiotherapy Officials*:** Ms Susan Strange
Mr Mitesh Makanjee

**Iechyd Galwadigaethol/ Occupational Therapist**: Ms Elin Pritchard
Ms Manon Thomas

**Therapydd Llefarydd/*Speech Therapy***

Darperir gwasanaeth therapi Llefarydd gan Awdurdod Iechyd Gogledd Orllewin Cymru ar gyfer gwneud asesiadau, cynllunio rhaglenni fel y gellir yr athrawon eu cyflwyno o ddydd i ddydd.
*The speech therapy service is provided in the school to assess and create programmes in order that teachers can introduce them on a day to day basis.*

Yn aml bydd gwaith y therapydd yn golygu asesiadau ar gyfer cymorth cyfathrebu trydanol a chyfrifiadurol.
*Occasionally the therapists' work includes assistance for the use of electric and computer aids.*

**Therapydd Lleferydd ac Iaith/*Speech Therapist*:**

Carol Davies Owen & Cari Jones

**Partneriaeth Dysgu a Rhwydweithiau Proffesiynol/**
***Proffesional Learning Partnerships and Networks***

Mae'r ysgol yn cyd-weithio ag ystod eang o asiantaethau a phartneriaid er mwyn datblygu a gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion yr ysgol.
*The School collaborates and works in partnership with a wide range of external agencies and partners in order to develop and improve the schools provision for pupils.*

**LLYWODRAETHWYR/*GOVERNORS***

**Aelodau'r Corff Llywodraethol 2024/2025**
***2024/2025 Members of the Governing Body***

**Yn cynrychioli'r Awdurdod Addysg Lleol/*Representing the Local Education Authority*:**
Cyng. Nicola Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)
Cyng. Dylan Rees
Mr Lloyd Williams

**Yn cynrychioli'r Rhieni/*Representing the Parents*:**
Miss Carys Thomas

**Aelodau Cyfetholedig/*Co-opted Members*:**
Mr Peter Davies OBE (Cadeirydd/Chair)
Dr. Julia Morgan

**Yn cynrychioli'r Mudiadau Gwirfoddol /*Voluntary Movements*:**
Mr Gwilym Pritchard


**Pennaeth/*Headteacher*:**
Andreas Huws

**Yn cynrychioli'r Athrawon/*Representing Teaching Staff*:**
Dawn Hoban

**Yn cynrychioli'r Staff Ategol/*Representing Ancillary Staff*:**
Gwennan Williams

**Clerc y Corff Llywodraethol/*Clerk to the Governing Body*:**
Iona Ponsonby

**Yn mynychu cyfarfodydd/*Attending Meetings***
UDRh/SMT

# Presenoldeb/ Cyrchfannau

# Presenoldeb

| *Blwyddyn* | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Absenoldebau awdurdodedig** | 5.2 | 4 | 6.2 | 7.9 | 0.8 | 7.2 | 7 |
| **Absenoldebau anawdurdodedig** | 0 | 0 | 0 | 0.3 | 0.2 | 0.7 | 0 |
| **Pob absenoldeb** | 5.2 | 4 | 6.2 | 8.2 | 8.7 | 7.9 | 7 |
| **Presenoldeb** | 94.8 | 96<br>94.5 hyd at 23/03 | 93.8 | 91.8 | 91.3 | 92.1 | 93 |

Targed yr ysgol am y flwyddyn fydd sicrhau fod canran presenoldeb yn uwch nag 95%.

---

## Cyrchfannau Disgyblion ôl 16 & 19 (i gyd yn ôl 19):

Nifer yn gadael = 5

Coleg Glynllifon = 0

Coleg Menai = 3

Coleg Pengwern = 1

Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol = 1

Tyddyn Môn = 0

Heulfre = 0

Arall = 1

# Datganiad Datblygu 3 Blynedd/Prif Flaenoriaethau (CGY 2025/26)

**CANOLFAN ADDYSG Y BONT**
**CYNLLUN GWELLA A DATBLYGU YSGOL 2025-2028**

# PRIF FLAENORIAETHAU

(gan gynnwys Argymhellion ESTYN – CGOA Gorffennaf 2023)

| | | | |
|---|---|---|---|
| ➢ | Arolygiad | : | Gorffennaf 2023 |
| ➢ | Hunanarfarniad yr Ysgol | : | Parhaus |
| ➢ | Adolygiad Datblygiad Proffesynol | : | Parhaus |
| ➢ | Cylchoedd Arsylwi Gwersi-mewnol/allanol | : | Parhaus |
| ➢ | Monitro Safonau (gwaith a chynlluniau) | : | Parhaus |
| ➢ | Cydweithio Ysgol i Ysgol | : | Parhaus (Gweler CGY) |
| ➢ | Ymweliadau ymgysylltu ESTYN | : | Parhaus |
| ➢ | Ymweliadau monitro EQUALS | : | Parhaus |
| ➢ | Ymweliadau Monitro AALl | : | Parhaus (trefniadau ôl-consortia) |

➢ ***Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg (Gorffennaf 2023)***
*Argymhellion ESTYN yn dilyn arolygiad llawn ym mis Mai 2023.*
*A1 Cryfhau'r gweithdrefnau hunanwerthuso drwy fesur effaith y gweithredoedd ar safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu.*
*A2 Ehangu'r profiadau dysgu ymhellach drwy wneud defnydd fwy pwrpasol o'r adnoddau allanol ac arbenigol.*

***Noder**: Mae'r 2 argymhelliad hwn wedi'u ymgorffori o fewn Cynllun Gwella Ysgol(2023/25)*

**Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r canlynol o fewn y CGY;**

- Cynllun Strategol Addysg (CSYM)
- Strategaethau Rhanbarthol/Awdurdod Lleol
- Blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol (e.e. Ff.Ll.Rh., Grantiau GGA/GDD, Ff.C.D., Cwricwlwm i Gymru, Y Gymraeg, Fframwaith Iechyd a Lles, Tlodi)
- Trefniadaeth a chanllawiau newydd arolygu ESTYN Medi 2024 (argymhellion ESTYN 2023).
- Bil ADY Llywodraeth Cymru
- Ysgol sydd yn hunanwella a chydweithio ysgol i ysgol
- Ymateb i heriau capasiti/gofod)
- Canllawiau Gwella Ysgolion (Medi 2024)
- Y Gymraeg
- Ymateb i dlodi

**Datganiad datblygu a chynllunio gwelliant 2025-2028**

Mae trefniadau gwerthuso'r ysgol, yn ogystal a chanfyddiadau monitro mewnol ag allanol, yn adnabod blaenoriaethau a meysydd penodol ac yn rhoi sylw manwl iddynt o un flwyddyn i'r llall. Mae'r byd addysg yng Nghymru yn parhau i wynebu cyfnod o newid sylweddol. Yn Canolfan Addysg Y Bont rydym wedi llwyddo i gyflwyno Cwricwlwm i Cymru â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol yn effeithiol ag yn amserol. Bellach rydym yn canolbwyntio ar fireinio'r Canllaw Gwella Ysgol a'r Fframwaith newydd Arolygu ESTYN, y ddau yn agweddau statudol o Medi 2024 ymlaen. Mi fydd yn gyfnod cyffrous a heriol, ac o bosib yn gythryblus, gan fod hinsawdd ariannol anodd yn gwynebu'r Llywodraeth, Awdurdodau Lleol a'r ysgol. Mae GWE fel consortia addysg rhanbarthol wedi dod i ben ar ddiwedd Mawrth 2025, ac nid oes sicrwydd eto sut fydd cyfrifoldebau monitro, herio a chefnogi yn esblygu yn y cyfnod i ddod. Mae strategaeth cychwynol, gan gynnwys arbenigedd wedi'i gytuno rhwng yr ysgol â'r Awdurdod Addysg.
Amlinelli'r cyfeiriad strategol Y Bont isod, a gwelir manylder ym mlaenoriaethau 2025-26. Gan fod Canllawiau Gwella Ysgol (2024) yn pwysleisio'r angen i gynlluniau gwella a datblygu ysgol fod yn ddogfen 'fyw', hygyrch a hyblyg, synhwyrol fyddai nodi y gall blaenoriaethau tymor canol/hir newid ychydig yn dilyn y broses o hunanwerthuso a hunanwella. Yn berthnasol i hyn y mae'r ffaith nad ydi'r

ysgol yn derbyn rhagolygon cyllidol sy'n rhychwantu 3 blwyddyn, yn cyfyngu briadd ar ddyfnder a manylder y gorchwyl.

Mae Cwricwlwm Y Bont, ac yn benodol y Llwybrau Dysgu Anffurfiol a Lled-ffurfiol wedi gwreiddio'n dda, serch hynny mae'r blaenoriaethau 2025-28 yn parhau i osod pwyslais barhaus ar ddatblygu a chyflwyno cwricwlwm sydd mwyaf addas i'r ystod disgyblion sydd ar ein cofrestr ar unrhyw adeg. Yn naturiol, mae cyfathrebu yn rhan gwreiddiol o'r cynnig cwricwlaidd, ac mae'r cynllun datblygiad proffesiynol barhaus staff yn adlewyrchu'r ffocws sylweddol rydym yn gosod ar hyn. Mae'r Bont yn parhau i feddu ar statws Ysgol Gyfathrebu Gyfeillgar, gan ail achredu yn 2025. Rydym hefyd yn ymgymryd â blaenoriaeth sydd yn arwain y sector wrth i ni gwreiddio 'Evidence For Learning' fel fframwaith asesu, tystiolaethu a hel data cynnydd.

Yn Haf 2024, dyfarnwyd statws Ysgol Exemplar i'r Bont, yr unig ysgol a'r gyntaf o'r fath yng Nghymru. Mi fyddwn felly yn gweithredu i gyd-weithio ag hyfforddi eraill yn y sector, gan sicrhau fod Y Bont yn flaengar wrth sicrhau gwasanaeth ag addysg o ansawdd uchel. Anelwn hefyd at dderbyn Nod Ansawdd newydd Gyrfa Cymru, gan ein bod yn rhan o beilot genedlaethol ac bellach yn gweithredu'r amcanion ar lefel ysgol. Yn anochel, mi fyddwn yn adeiladu ar gynnydd o fewn ein blaenoriaethau gwella a datblygu ysgol, gan atgyfnerthu gweithrediad blaenorol ac ymestyn ar ein agenda o godi safonau o flwyddyn i flwyddyn. Mi fydd ffocws barhaus ar sicrhau bod llywodaethwyr yr ysgol yn adnabod eu rôl a'u cyfrifoldebau o fod yn gyfeillion beirniadol i'r ysgol sydd yn cefnogi ac ysgogi gwelliant ble sydd angen. Mae'r Llywodraethwyr eisoes wedi bod yn rhan o gynllun peilot 'Governors Virtual Office', ac mae'r cyfathrebu a rhannu dogfennaeth yn fwy effeithiol nag erioed.

Wrth ymgorffori blaenoriaethau ag amcanion penodol i naratif Y Bont, y sefyllfa leol, rhanbarthol a chenedlaethol ryndym yn sefydlu cyfres o linellau atebolrwydd sydd â chyswllt clir â'r drefn o Adolygu Datblygiad Proffesiynol parhaus y staff. Rhoddwn bwyslais sylweddol ar hyfforddiant sydd yn gyfredol.

# Cynllun 3 blynedd: Blaenoriaethau cryno Gwella Ysgol a datblygu Cwricwlwm Y Bont – 2025-2028

| Maes | Blaenoriaethau 2025-26 | |
|---|---|---|
| Cwricwlwm, Addysgu a dysgu | 1. Datblygiad parhaus a gweithredu pellach ar Llwybrau Dysgu Unigol Y Bont â chynnydd disgyblion (Cam 4)<br>i) Ffocws benodol ar y model ymgysylltu cyn anffurfiol, y cynllunio â'r addysgu (gan gynnwys ymgorffori i ddogfennaeth/polisiau lefel uchel)<br>ii) Gwreiddio'r dull gwerthuso craffu manwl (deep dive) ar draws yr holl llwybrau dysgu<br>iii) Cyflwyno dehongliad mwy cadarn o data EFL yn benodol, wrth i cylch 3,4,5 gael ei rhannu dros y flwyddyn<br>iv) UDR i fodelu (tîm athrawon i weithredu) ar beth ydi cynnydd, cynnydd da,cynnydd rhagorol drwy'r rhaglen DPP<br>v) Parhau i adnabod a chyflwyno dulliau asesu addas – yn benodol yn y llwybr cyn-anffurfiol<br><br>2. Sefydlu gweithdrefnau newydd adolygu datblygiad a chynlluniau unigol (CDUs) yn gadarn a sefydlog i ddisgyblion, staff ag asiantaethau/partneriaid, yn Dilyn adolygiad manwl – gan arwain at model cyson i'r holl rhanddeiliaid<br><br>3. Gwreiddio a gweithredu fframwaith achredu Newydd CAYB (pathway accreditation model) | - Sicrhau fod y newidiadau i Cwricwlwm Y Bont a'r Llwybrau Dysgu wedi'i adlewyrchu yn holl dogfennaeth a polisiau lefel uchel yr ysgol.<br>- Cynnwys y Llwybrau Dysgu cyn-anffurfiol yn yr holl gynllunio<br>- Sicrhau data cadarn ar draws 'Evidence for Learning'<br><br>- Gweithredu ar y holl trefniadau allanol newydd o fewn prosesau adolygiadau blynyddol yr ysgol drwy'r Cynllun Datblygu Unigol<br>- Sicrhau amserlen cyson gyda'r rhanddeiliaid<br><br>- Gwreiddio'r fframwaith achredu Newydd yn gadarn, gan ymgorffori o fewn ein Llwybrau Dysgu newydd<br>- gwerthuso data achrediadau o fewn ein Llwybrau Dysgu |
| Gofal, cymorth a lles a thegwch | 4. Ystyried y risg rhagweladwy sydd ynghlwm a chapasiti i 2025/26 drwy cynllunio'n strategol ar gyfer;<br>i) Datblygu'r adnodd 'Bont Bach' (ABC gynt) yn ffisegol & adnoddau amgen<br>ii) Ystyried dylanwad hyn ar ein darpariaeth/cynhaliaeth/cyllid<br>iii) Effaith ar gweithdrefnau/adnoddau<br>iv) Effaith ar trefniadaeth a gofod<br><br>5. Fel rhan o beilot cenedlaethol Nod Ansawdd Newydd Gyrfa Cymru (peilot 3 blynedd) y mae CAYB yn rhan ohono – ymateb i rhan 2 gofynion y Nod Ansawdd dros ysgol. | - Cynnal trafodaethau cyson gyda'r Awdurdod Addysg Lleol a'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn medru gwell rheoli i niferoedd disgyblion<br>- Datblygu'r adnodd Newydd 'Bont Bach'<br><br>- Cwrdd â holl ofynion Nod Ansawdd Gyrfa Cymru yn unol â'r rhaglen 3 blynedd. |
| Gweledigaeth, Arwain a gwella | 6. Gwreiddio CAYB fel Ganolfan Rhagoriaeth/Ysgol Exemplar yn unol a gofynion a safonau cytunedig EQUALS<br><br>7. Asio'r drefn o hunan werthuso draws ysgol i'r drefn Adolygiad Datblygiad Proffesiynol ymhellach drwy sefydlu a gweithredu ar un drefn chyd-lynnus, gan osod ffocws benodol ar ddehongli data EFL yn 2025/26 | - Cwrdd ag ateb holl ofynion bod yn Ysgol Exemplar EQUALS yn unol a meini-prawf allanol<br><br>- Sicrhau hunan werthuso parhaus o safon sydd yn arwain at gwella safonau a chryfhau'r ddarpariaeth.<br>- Gwerthuso data cynnydd EFL fel rhan o arfarniad ysgol gyfan. |

| Maes | Blaenoriaethau (tebygol) 2026-27 | Blaenoriaethau Cenedlaethol/Arall |
|---|---|---|
| Cwricwlwm, Addysgu a dysgu | 1. Datblygiad barhaus ar ddatblygiad Llwybrau Dysgu cwricwlwm Y Bont a chynnydd disgyblion (Cam 5) (Yn Dilyn gwerthuso ysgol gyfan, mae'n debygol fydd angen ystyried y canlynol)<br>i) Adolygu a sicrhau her barhaus o fewn BDUs/Deilliannau<br>ii) Sicrhau data cadarn i'r llwybr dysgu cyn-anffurfiol<br>iii) Sicrhau gwerthusiad/adolygiad llawn o prosesau CAYB mewn perthynas â chanllawiau (statudol & dymunol) gwella Ysgolion Cymru | Gwella cynnydd disgyblion<br><br>Lleihau effaith tlodi<br><br>Blaenoriaethau sy'n deillio o hunan werthusiad ysgol gyfan |
| Gofal, cymorth a lles a thegwch | 2. Fel rhan o beilot cenedlaethol Nod Ansawdd newydd Gyrfa Cymru (peilot 3 blynedd) y mae CAYB yn rhan ohono – ymateb i rhan 3 gofynion y Nod Ansawdd draws ysgol.<br>3. Mewn sefyllfa o ariannu tebygol/dymunol (dulliau cyfunol cyd-weithio ysgol i ysgol), ail-gyflwyno rhaglen all-gymorth arbenigol er mwyn rhannu arfer orau i ddisgyblion ag AD dwys yn y prif-lif.<br>4. Ystyried y risg rhagweladwy sydd ynghlwm a chapasiti i 2026/27 drwy cynllunio'n strategol ar gyfer;<br>i) Dylanwad hyn ar ein darpariaeth/cynhaliaeth/cyllid<br>ii) Effaith ar gweithdrefnau ac adnoddau<br>iii) Effaith ar trefniadaeth a gofod | |
| Gweledigaeth, Arwain a gwella | 5. Ymateb i unrhyw ganfyddiadau/argymhellion allanol yn ddilyniant i arolygu/monitro/arweiniad gan;<br>i) ESTYN – craidd neu interim<br>ii) Awdurdod Addysg a Gwasanaeth ADY (a/neu Corff Haen Ganol newydd wedd)<br>iii) Rhanddeiliaid sylweddol arall e.e. EQUALS, Grwp Ysgolion Arbennig<br>iv) Blaenoriaethau Cenedlaethol (ychwanegol) | |

| Maes | Cyfeiriad Blaenoriaethau 2027-28 | Blaenoriaethau Cenedlaethol/Arall |
|---|---|---|
| Cwricwlwm, Addysgu a dysgu | 1. Datblygu Llwybrau Dysgu Cwricwlwm Y Bont a chynnydd disgyblion ymhellach (Cam 6) (Blaenoriaethau yn dilyn gwerthuso ac adolygu)<br>2. Blaenoriaethu amcan Ysgol Gyfathrebu Gyfeillgar | Gwella cynnydd disgyblion<br><br>Lleihau effaith tlodi<br><br>Blaenoriaethau sy'n deillio o hunan werthusiad ysgol gyfan |
| Gofal, cymorth a lles a thegwch | 3. Adolygu a diwygio ble'n berthnasol/addas ein strategaeth ol-14 parthed cynllunio trywydd achrediadau/cymhwysterau yn unol ag anghenion presennol disgyblion/pobl ifanc.<br>4. Ystyried y risg rhagweladwy sydd ynghlwm a chapasiti i 2026/27 drwy:<br>i) Dylanwad hyn ar ein darpariaeth/cynhaliaeth/cyllid<br>ii) Effaith ar gweithdrefnau ac adnoddau<br>iii) Effaith ar trefniadaeth a gofod | |
| Gweledigaeth, Arwain a gwella | 5. Ymateb i unrhyw ganfyddiadau/argymhellion allanol yn ddilyniant i arolygu/monitro/arweiniad gan;<br>i) ESTYN – craidd neu interim<br>ii) Awdurdod Addysg a Gwasanaeth ADY (a/neu Corff Haen Ganol newydd wedd)<br>iii) Rhanddeiliaid sylweddol arall e.e. EQUALS, Grwp Ysgolion Arbennig<br>iv) Blaenoriaethau Cenedlaethol (ychwanegol) | |

**Cyfeiriad ein blaenoriaethau 2025-28**

Mi fydd blaenoriaethau a llwybr hunanwella CAYB yn cwmpasu'r blaenoriaethau cenedlaethol cyfredol sef;

i) Y Gymraeg 2050.
ii) Ymateb i tlodi.
iii) Parhau i ymateb i ddatblygiad Cwricwlwm i Gymru (gwella cynnydd disgyblion).
iv) Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol.
v) Fframwaith 'Llesiant emosiynol a meddyliol'.
vi) Cyd-weithio ysgol i ysgol.
vii) Sicrhau cynnydd yn erbyn yr 8 Ffactor cyfrannu.
viii) Ymateb i gynlluniau lleol/rhanbarthol ol-consortia.
ix) Ymateb lawn i agweddau eraill o fewn y Canllaw Gwella Ysgolion.

**Materion eraill nad ydynt yn flaenoriaethau lefel uchel.**

- Prynu offer TGCh newydd sydd yn arbennigol (y gobaith ydi sicrhau hyn drwy Grant HWB).
- Sicrhau mwy o gyfleoedd am brofiad Gwaith grŵp ol-14.
- Hyrwyddo mwy o hyfforddiant i rieni/gofalwyr ar safle'r ysgol a/neu tu hwnt.
- Parhau a datblygiad 'Governors Virtual Office' yn dilyn peilot 2023/24.
- Cyd-weithio a CABAN (Prifysgol Bangor), yn benodol ar y Cwrs TAR Cynradd/ADY newydd.

- Ymestyn ein cyd-weithio â Coleg Menai i sicrhau Staff Cefnogol o safon at y dyfodol.
- Ymestyn/hyrwyddo y ddarpariaeth 'Clybiau'ol-ysgol.
- Parhau i ddatblygu rôl Swyddog Hwb Llesiant yn dilyn gorffen y partneriaeth â'r WRU.

**Blaenoriaethau systemic parhaus.**

- Datblygu capasiti corfforol CAYB er mwyn gwell ymateb i'r cynnydd sylweddol mewn niferoedd.
- Cyd-weithio'n agos a'r AALl. a Coleg Menai er mwyn llunio strategaeth i ymateb i'r ddarpariaeth anghenrheidiol ol-16.
- Ymateb i'r heriau sydd yn gwynebu ysgolion arbennig wrth recriwtio cymhorthyddion (yn benodol). Noder: mae hyn yn golygu trafodaethau a phenderfyniadau ar lefel genedlaethol.
- Ymateb i heriau cyllidol sydd yn debygol o effeithio CAYB.